

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 16 Tachwedd 2021.

Presennol: Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd

Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Gordon Owen, Lowri Owen, William Victor Owen a Sharon Parry.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc)

Gofynnodd y Cadeirydd am funud o dawelwch er y cof am gyn cynghorydd Mr Arthur Roberts, Afallon, Caergeiliog a fu farw yn ddiweddar. Mynegodd yr aelodau eu cydymdeimlad diffuant at ei deulu.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones, Beryl Salisbury ac Einir Thomas.
2. **Datganiad o ddiddordeb** – Cyng. William Victor Owen yn datgan diddordeb rhagfarnol yn eitem. 7.1 cais cynllunio VAR/2021/74, fe adawodd y cyfarfod am yr eitem heb gymryd rhan o gwbl yn y drafodaeth.
3. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol** - Derbyniwyd fod y cofnodion 19 Hydref 2021 yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
 - 4.1 Cae Chwarae: Roedd yr arwynebau diogelwch dal angen sylw, byddai Cyng. Gordon Owen yn atgoffa'r contractwr. Dim pellach i'w adrodd am yr offer a addawyd gan Kenton Jones Ltd. Cynigiodd Cyng. Celfyn Furlong a Gwilym Jones dynnu'r hen feinciau o'r cae chware. Cafwyd prisiau rhwng £ 375 - £ 400 + TAW a chludiant am feinciau plastig wedi'u hailgylchu. Cytunwyd i brynu'r un a oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian.
 - 4.2 Llwybrau - Roedd y Cyngor Sir wedi cynnal archwiliad manwl o'r holl lwybrau ar Ynys Môn ac wedi postio eu canfyddiadau a'u ffotograffau ar eu gwefan. Ychydig iawn o waith oedd ei angen yn Llanfair yn Neubwll a gallai hyn aros tan y gwanwyn. Roedd y Cyngor Sir hefyd wedi cael gwybod am y gŵyn a dderbyniwyd gan y tîrfeddiannwr ynghylch Llwybr Troed 10 (Ysgybor Bach).
 - 4.3 Hysbysfwrdd – Cafwyd map gan y Cyngor Sir o'r tir oedd ganddynt wrth yr eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn. Roeddent am i'r Cyngor Cymuned gadarnhau union leoliad yr hysbysfwrdd arfaethedig a gofynnwyd am ddarlun o sut y byddai'r hysbysfwrdd yn edrych. Cytunwyd y byddai Cyng. Furlong yn ymweld â'r safle i ganfod y lleoliad gorau posibl o ran diogelwch a'r rhwyddineb i'w osod. Gan mai'r bwriadu oedd prynu hysbysfwrdd fel yr un a osodwyd yng Nghaergeiliog petai'r Cyngor Sir yn caniatáu byddai'r clerc yn anfon llun o hwnnw iddynt.
 - 4.4 Materion parcio Caergeiliog - Cytunwyd i ofyn am gyfarfod safle i drafod y problemau parcio gan neuadd y pentref. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghoriad llawn a

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

thrylwyr cyn cymryd unrhyw benderfyniad gan ei bod yn amlwg bod gan rai trigolion lleol bryderon am gael llinellau melyn dwbl o flaen eu heiddo.

4.5 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

5. Materion Plwyfol

5.1 Gwasanaeth Bws Llanfihangel yn Nhowyn - Mynegwyd pryderon am y cwtogiad yn y gwasanaeth bws trwy Camp Fali. Mynegodd Cyng. Gwilym Jones ei bryderon i'r Cyngor Sir. Dywedwyd wrtho fod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan gwmni bws masnachol a oedd wedi penderfynu nad oedd y gwasanaeth yn gynaliadwy. Ei bwriadu oedd darparu gwasanaeth cynnar yn y bore a min nos yn unig. Addawodd y Cyngor Sir weld beth y gallent ei wneud.

6. Penderfyniadau Cynllunio

6.1 FPL /2021/259 Bryn Ednyfed, Caergeiliog - Caniatâd.

6.2 FPL/2021/225 Tyn Llan, Y Fali / Valley - Caniatâd.

6.3 LUE/2021/15 Tyddyn Du, Y Fali / Valley
Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer y defnydd presennol o chalet am ddefnydd preswyl – cyfreithlon.

7. Ceisiadau Cynllunio

7.1 **VAR/2021/74 Pen y Bonc, Caergeiliog**

Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (01) (Rhaid i'r datblygiad gychwyn o fewn 5 mlynedd i dyddiad y caniatâd) o ganiatâd cynllunio rhif 32C180B (codi annedd) er mwyn caniatáu 5 mlynedd arall i ddechrau ar y datblygiad ar dir – dim sylwadau.

Cafwyd yn datganiad o diddordeb rhagfarnol gan Cyng. William Victor Owen, fe adawodd y cyfarfod heb gymryd rhan o gwbl yn y drafodaeth.

8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.10. 2021 i 31.10.2021 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc. Cyfrif Cyfredol £22,103.55, Cyfrif Cadw £3,938.97

9. **Taliadau i'w gwneud** : Cytunwyd i dalu y rhain

Cyflog mis Hydref	£243.61	GMS Ground Services	£180
-------------------	---------	---------------------	------

10. **Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

10.1 Fersiwn ddiwygiedig o'r model Broctocol ar gyfer Datrys Cwynion – cytunwyd i dderbyn hwn.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

- 10.2 Cyngor Technegol (TAN) 15 newydd a Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio
- 10.3 Cricieth Creadigol Creative Criccieth -ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Bywydau Creadigol o fri 2021
- 10.4 Sesiynau hyfforddiant o bell Un Llais Cymru.
- 10.5 Ymgynghoriad ar yr ymchwiliad i ail gartrefi
- 10.6 Adroddiad Adolygu Drafft - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
- 10.7 Sesiwn Ariannu Loteri Genedlaethol Ar-lein (Ynys Mon)
- 10.8 Llywodraeth Cymru - cronfa ar gyfer defibrillator
- 10.9 Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Hydref 2021
- 10.10 Ymgynghoriad - defnyddio cychod dwr hamdden a phersonol yn beryglus - ymateb y Cyngor Sir

Gwrandawiadau Cyhoeddus – Comisiwn Ffiniau i Gymru.
Rheoliadau Drafft Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022
Ymgynghoriad yn cau 22.12.2021

Fforwm Cyswllt CT&Ch 29-9-21 Cofnodion a gwybodaeth ychwanegol
Eitem 3: Strategaeth Dai 2022-27
Y Strategaeth ddrafft - Mae'r cyfnod ymgynghori bellach wedi'i ymestyn i 20.12. 2021.

Arolwg anghenion tai – bydd yr arolwg ar gael tan 15 Tachwedd 2021.

Eitem 4: Adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor Sir:

Eitem 6: Ceisiadau Cynllunio –
hyfforddiant arbenigol: Bwriedir rhoi sylw i hyn ar ôl yr etholiadau lleol. Yn y cyfamser, efallai bydd y ddolen isod o ddiddordeb, sef adnoddau gan Gymorth Cynllunio Cymru sy'n cynnwys llawlyfr i gynghorau tref a chymuned ar y system gynllunio:

11. Adroddiadau Aelodau

Roedd Cyng. William Victor Owen a Gwilym Jones wedi arolygu'r llochesi fws. Roedd popeth i weld yn iawn ar wahân i dipyn o chwyn / llystyfiant a fyddai angen sylw yn y flwyddyn newydd. Nodwyd bod y ddwy sedd yn lloches bws wrth Lyn Penrhyn yn dal i fod yn ddefnyddiol er eu bod wedi plygu.

12. Cyfarfod Nesaf - 18 Ionawr 2022

